Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) a Phrif Gwnstabl (PG) Dyfed-Powys**

# Cylch Gorchwyl

- **1. CYFLWYNIAD**

- Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r cylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd/Grŵp Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) a Phrif Gwnstabl (PG) Dyfed-Powys, ei aelodaeth a rolau a chyfrifoldebau'r aelodau.

- **2. DIBEN Y PWYLLGOR**

Mae ein Cyd-bwyllgor Archwilio'n elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol Corff Plismona Lleol Dyfed-Powys. Mae'n darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar drefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n tanategu safonau ariannol a llywodraethu da.

Bydd y Cyd-bwyllgor Archwilio'n gweithio ochr yn ochr â grwpiau a byrddau eraill wrth gefnogi trosglwyddiad cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd yr heddlu, gweledigaeth y Prif Gwnstabl a'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Diben ein Cyd-bwyllgor Archwilio yw darparu sicrwydd annibynnol i'r CHTh a'r PG ar ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol, gan gynnwys adrodd ariannol, prosesau llywodraethu blynyddol a chanfyddiadau archwilio mewnol ac allanol, gan felly helpu sicrhau bod trefniadau effeithlon ac effeithiol mewn lle. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Pwyllgor, dros gyfnod blwyddyn ariannol, yn:

## Llywodraethu, risg a rheolaeth

- Cynghori'r CHTh a'r PG yn ôl egwyddorion llywodraethu da, gan gynnwys y fframwaith moesegol.
- Ystyried y cod llywodraethu a'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol lleol.
- Argymell cymeradwyo'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer eu cynnwys yn y Datganiadau o Gyfrifon.
- Argymell cymeradwyo'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh).
- Ystyried a rhoi sylwadau ar unrhyw bolisi neu strategaeth yn ymwneud â chomisiynu.
- Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd gweithdrefnau rheoli mewnol a monitro gweithrediad camau gweithredu a gytunwyd.

- Ystyried canfyddiadau AHGTAEM ac adolygiadau allanol eraill o ran y modd y maent yn berthnasol i faterion llywodraethu, risg a gweithdrefnau rheoli mewnol.
- Adolygu a monitro effeithiolrwydd polisïau a gweithdrefnau ynghylch twyll, afreoleidd-dra a llygredigaeth.
- Monitro datblygiad effeithiol a gweithrediad rheoli risg o fewn SCHTh a'r Heddlu, gan gynnwys monitro Cofrestrau Risg Corfforaethol.
- Ystyried trefniadau i sicrhau gwerth am arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau ar effeithlonrwydd y trefniadau hyn.
- Adolygu effeithiolrwydd trefniadau chwythu'r chwiban.
- Adolygu'r trefniadau sicrwydd a llywodraethu ar gyfer cydweithio neu bartneriaethau arwyddocaol.

**Rheolaeth Ariannol**

- Darparu sicrwydd mewn perthynas â'r Datganiadau o Gyfrifon a bod y polisïau cyfrifo priodol wedi eu cymhwyso.
- Monitro cywirdeb unrhyw ddatganiadau ariannol cyhoeddedig ac unrhyw gyhoeddiadau ffurfiol mewn perthynas â pherfformiad ariannol.
- Ystyried a rhoi sylwadau ar unrhyw bolisi neu strategaeth sy'n ymwneud â chronfeydd wrth gefn.
- Rhoi sylwadau ar y broses cynllunio cyllideb.
- Ystyried a rhoi sylwadau ar y Strategaeth Ariannol (Cynllun Ariannol Tymor Canolig).
- Ystyried a rhoi sylwadau ar unrhyw bolisi neu strategaeth sy'n ymwneud â rheoli asedau.
- Adolygu a monitro trefniadau rheoli trysorlys.

**Archwilio Mewnol**

- Cymeradwyo ac adolygu (ond nid cyfarwyddo) y Cynllun a'r Strategaeth Archwilio Mewnol ac unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun.
- Goruchwylio penodi ac adolygu effeithiolrwydd Archwilio Mewnol. Rhoi sicrwydd i'r CHTh a'r PG ar ddarpariaeth gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol a digonol.
- Derbyn ac adolygu pob adroddiad archwilio mewnol.
- Monitro cynnydd gweithredu argymhellion o adroddiadau Archwilio Mewnol. Derbyn adroddiadau cynnydd ar y Cynllun Gwaith Archwilio Mewnol a sicrhau y cymerir camau priodol mewn ymateb i ganfyddiadau archwiliadau, yn arbennig mewn meysydd perygl uwch.
- Ystyried unrhyw amhariadau i annibyniaeth neu wrthrychedd sy'n codi o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol y tu allan i archwilio mewnol y pennaeth archwilio mewnol.
- Ystyried datganiad yr Archwiliad Mewnol gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).
- Ystyried adroddiad blynyddol a barn Pennaeth Archwilio Mewnol ar effeithiolrwydd archwilio mewnol er mwyn cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Ystyried y canfyddiadau o'r Asesiad Ansawdd Allanol.

**Archwilio Allanol**

- Derbyn ac adolygu adroddiadau gan yr archwilwyr allanol gan gynnwys yr adroddiad archwilio blynyddol, barn archwilio ac ati.

- Ystyried a sylwi ar unrhyw gynigion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth o'r gwasanaeth archwilio allanol.
- Ystyried lefel y ffioedd a godir gan archwilwyr allanol, a pha un ai a yw'n cynnig gwerth boddhaol am arian.
- Cynghori ac argymell ynghylch effeithiolrwydd perthnasau rhwng archwilio allanol a mewnol.

- **3. LLYWODRAETHU**

**Cadeirydd:**

Penodir Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio o blith aelodau'r Pwyllgor. Penodir Cadeirydd yn flynyddol. Penodir y Cadeirydd bod dwy flwyddyn. Gellir ailbenodi'r un person fel Cadeirydd yn ystod pob etholiad.

**Amlder:**

Trefnir 4 cyfarfod pwyllgor ffurfiol a hyd at 2 weithdy/seminar y flwyddyn. Gall Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio alw cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen. Gall y CHTh a'r PG ofyn i'r Cyd-bwyllgor Archwilio alw cyfarfodydd pellach i drafod materion penodol y maent yn dymuno cael cyngor y Pwyllgor arnynt.

- **4. YR HYN Y GELLIR EI GYFAWNI**

Bydd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn:

- Adolygu ei berfformiad yn erbyn ei Gylch Gorchwyl bob blwyddyn ac yn adrodd am ganlyniadau'r adolygiad hwn i'r CHTh a'r PG.
- Argymell cymeradwyo'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol.
- Darparu sicrwydd annibynnol mewn perthynas â digonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheoli cysylltiedig.
- Darparu craffu annibynnol o berfformiad ariannol yr Heddlu a SCHTh.
- Goruchwylio'r gwaith o baratoi a chyhoeddi'r cyfrifon statudol.
- Cwblhau Adroddiad Blynyddol, a fydd yn eistedd ar y cyd â Datganiad Llywodraethu Blynyddol y CHTh a'r PG ar berfformiad y Cyd-bwyllgor Archwilio.

Ystyried unrhyw fater arall y mae'r Corfforaethau Undyn yn gofyn i'r pwyllgor roi sylwadau a chyngor arno.

- **5. Aelodaeth**

Bydd y Cyd-bwyllgor Archwilio'n cynnwys hyd at bump o bobl, yn annibynnol o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd

yr Heddlu a Throseddu a'r Panel Heddlu a Throseddu.

Penodir aelodau ar y cyd gan y CHTh a'r PG. Bydd aelodau'n gwasanaethu ar y Pwyllgor am dymor o bedair blynedd. Dylid cymryd gofal i osgoi bod tymhorau pob aelod yn gorffen yr un pryd er mwyn sicrhau dilyniant. Ni fydd unrhyw unigolyn yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am fwy na chyfanswm o wyth mlynedd.

Er mwyn cynyddu hygrededd ac awdurdod y penderfyniadau y bydd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn eu gwneud, bydd cworwm o dri aelod yn cael ei sefydlu.

Gall cyfethol fod yn fanteisiol ar gyfer dod â barn annibynnol lle mae angen trafodaeth arbenigol. Ni fydd gan unrhyw aelod cyfetholedig hawliau pleidleisio.

Dylai'r CHTh a'r PG fynd i gyfarfodydd ffurfiol y Cyd-bwyllgor Archwilio, neu gael eu cynrychioli'n briodol ynddynt.

Bydd y canlynol hefyd yn bresennol:

- Pennaeth Staff, SCHTh
- Prif Swyddog Ariannol, SCHTh
- Cyfarwyddwr Cyllid, HDP
- Archwilydd Mewnol
- Archwilydd Allanol
- Ymgynghorydd Rheoli Parhad Busnes a Risg
- Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol
- Swyddogion eraill o SCHTh a'r Heddlu pan fydd angen

Gall aelodau'r pwyllgor hefyd eistedd fel cynghorwyr ar grwpiau'r Heddlu, er enghraifft y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, i gefnogi ei rôl.

- **6. Trefniadau**

Bydd gweinyddiaeth i gefnogi'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n cael ei darparu gan SCHTh.

Rhoddir papurau i Aelodau er mwyn iddynt eu hystyried 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Bydd agenda, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd ffurfiol ar gael yn ddwyieithog lle'n bosibl ar wefan SCHTh.

Bydd unrhyw benderfyniad a wneir i gynnal elfen o'r cyfarfod mewn sesiwn gaeedig wedi ei seilio ar yr egwyddorion hynny a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972.

Bydd y Cadeirydd yn cyfarfod â'r CHTh a'r PG mewn sesiwn gaeedig yn flynyddol, neu yn ôl y galw.

Bydd pob Aelod yn cyfarfod â'r archwilydd mewnol a'r archwilydd allanol mewn sesiwn gaeedig unwaith y flwyddyn o leiaf. Darperir hyfforddiant priodol ac amserol i Aelodau er mwyn sicrhau'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.

1. **ARIANNU AC AWDURDODI**

Bydd y Pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r lefelau cyllideb a awdurdodwyd. Ceir manylion pellach am hyn o fewn y ddogfen "Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Cyfarfodydd Llywodraethu".

1. **RHEOLI FERSIYNAU A DYDDIAD ADOLYGU**

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 04-2021 |
| Awdur: | Caryl Bond |
| Dyddiad Cymeradwyo: | 30 Tachwedd 2021 |
| Bwrdd Cymeradwyo: | Y Cyd-bwyllgor Archwilio |
| Dyddiad Adolygu: | Rhagfyr 2022 |